

Cynnwys

T2: Newyddion/a

Digwyddiadau

T4: Diweddariadau
ar Becynnau Gwaith

T5: Ar yr heol

T6: Cwrdd â'r tîm

T8: Cysylltu â ni



Cyfarchion gan y Prif Ymchwilydd



Croeso i 14eg rhifyn cylchlythyr CorCenCC. Rydym wedi cael cwpwl o fisoedd prysur ym mhrif swyddfa CorCenCC ac ar draws yr holl sefydliadau partner. Yn y rhifyn hwn, ein nod yw rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd diweddar ar y prosiect, gan gynnwys newyddion chwilioeth o'r wasg am bartneriaeth newydd ar brosiect, a manylion

cynnig ariannu llwyddiannus – datblygiadau fydd yn debygol o gryfhau ein gwaith hyd yn oed yn fwy. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth am rai o'r digwyddiadau yr ydym wedi cymryd rhan ynddynt yn ddiweddar, gan gynnwys rhaglen Prifysgol Abertawe yng ngŵyl 'Being Human', a gynhelir ledled y DU, a diwrnod cwrdd i ffwrdd bach cyntaf CorCenCC. Ar y diwrnod hwnnw, daeth rhai o aelodau'r tîm sy'n gweithio yn Ne Cymru ynghyd i gymryd rhan mewn digwyddiad bondio a datblygu tîm ar ddiwrnod hydrefol hyfryd ger y traeth ym Mae Abertawe. Gan ychwanegu at yr hyn a gyhoeddwyd yn rhifyn mis Medi, byddwn hefyd yn rhannu newyddion am ddau becyn gwaith olaf

y prosiect, WP2 a WP5, ynghyd ag adroddiad byr arall am brofiadau un ymchwilydd CorCenCC 'Ar Daith' (gyda Jennifer Needs y tro hwn). Yr erthygl olaf fydd y proffil cwrdd â'r tîm olaf, sy'n cynnwys...wel...fi fy hun! Dyma rifyn olaf 2017, felly Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi. Bydd y cylchlythyr yn dychwelyd ym mis Ionawr – gobeithio eich gweld chi eto wedyn!

BBC Cymru/Wales: partneriaid newydd i'r prosiect

Mae tîm CorCenCC yn falch o gyhoeddi bod cytundeb wedi ei lofnodi rhwng y prosiect a BBC Cymru, gan eu gwneud yn bartneriaid ar y prosiect. Bydd y bartneriaeth yma'n ein galluogi i ddefnyddio cynnwys gan BBC Cymru o fewn CorCenCC (gan gynnwys rhaglenni teledu a radio BBC Cymru yn ogystal ag erthyglau ar-lein). Rydym yn awyddus i ddiolch yn fawr iawn i BBC Cymru am eu cydweithrediad – rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda nhw ar y prosiect!
www.bbc.com/wales

BBC | cymru
wales



Mwynhewch y cylchlythyr! Dr Dawn Knight



+ Newyddion a digwyddiadau

Mae tîm CorCenCC yn falch o gyhoeddi ein bod wedi derbyn arian gan gynllun Grant Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i weithio ar brosiect o'r enw WordNet Cymraeg.

Nod y prosiect yw adeiladu WordNet yn awtomatig ar gyfer yr iaith Gymraeg, cronfa ddata 'eirfaol' lle mae geiriau wedi'u grwpio yn setiau o gyfystyron (synsets), sydd wedyn yn cael eu trefnu yn rhwydwaith o berthnasau 'lecsico-semantic'.

Defnyddir WordNets yn eang mewn prosesu iaith naturiol (NLP) i gefnogi dealltwriaeth o'r ystyr a fynegir mewn

iaith ysgrifenedig ac ar lafar. Bydd WordNet, felly, yn hanfodol ar gyfer cymwysiaid technoleg iaith megis ateb cwestiynau, adfer gwybodaeth a chyfieithu peiranyddol.

Mae'r technolegau hyn yn hanfodol ar gyfer datblygu rhyngwynebau hawdd eu defnyddio o ran ffonau clyfar ac apiau i'r cartref, a fydd yn gyrru'r defnydd o dechnoleg ddigidol cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cymraeg 2050.

Drwy gysylltu prosiect WordNet Cymraeg â phrosiect CorCenCC, byddwn yn ailddefnyddio ei gynlluniau cynaliadwyedd ac ymgysylltu i gynyddu gwelededd a sicrhau dyfodol hirdymor WordNet Cymraeg. Bydd gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Cynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r prosiect ac annog defnyddwyr i brofi ei gweithredoedd.
- Cynnal sioeau / gweithdai rhanbarthol mewn ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol / Mentrau Iaith i godi ymwybyddiaeth posibl defnyddwyr o'r WordNet, a hefyd i ddarparu hyfforddiant sylfaenol i'w gyfleustodau.

+ Bydd WordNet Cymraeg yn cael ei arwain gan yr Athro Irena Spasic, gan weithio gyda Dr Dawn Knight a Dr Steven Neale



Aelod newydd o'r tîm!

Hoffem gymryd y cyfle hwn i gyflwyno aelod mwyaf newydd tîm CorCenCC, sef Lowri Williams. Bydd Lowri yn gweithio fel Cynorthwydd Gweinyddol rhan-amser hyd ddiwedd prosiect CorCenCC a bydd hi'n

gweithio o Brifysgol Caerdydd. "Shw mae, Lowri 'dw i. Ymunais â'r prosiect ym mis Hydref fel Cynorthwy-ydd Gweinyddol. Mae gen i gefndir mewn gwasanaethau ariannol, wedi gwiethio am bron 10 mlynedd i Legal & General ar eu prosiectau TG. Yn ystod y cyfnod yma roeddwn i'n dal ati'n gweithio'n gyfrinachol ar fy obsesiwn fi fy hun: iaith ac ieithyddiaeth. Derbynais fy ngradd trwy'r Brifysgol Agored dros yr haf, ac rydw i nawr yn gweithio ar fy MA yng Nghaerdydd. Clywais am CorCenCC yn ystod cyfarfod â Dawn Knight rhyw ddwy mlynedd yn ôl a chyn hir dechreuais i weithio ar ddarnau bach o drawsgrifio. Rwyf yn fy ystyried fy hun yn un o'r mwyafrif o siaradwyr Cymraeg gwrthgiledig y De: wedi dysgu'r Cymraeg yn yr ysgol ond heb gael siawns i'w siarad yn gyson ers 'ny. Fel siaradwr Cymraeg, mae'n wych gweld y prosiect yn croesawu siaradwyr o bob lefel a chefnidir. Fel ieithydd, hoffwn weld sut mae'r iaith wedi ymdopi gyda'r byd modern a thwf yr iaith Saesneg. Yn fy mywyd personol, dwi'n bach o 'gŵc' i fod yn onest, a dwi'n dwlu ar chwarae gemau a datrys posau. Ym mis Awst y flwyddyn yma gwnes i a fy ffrindiau ymddangos ar sioe quiz Only Connect y BBC. Er i ni golli (mor agos!), cawsom ni ddiwrnod gwych. Dwi'n edrych ymlaen at weld beth all y prosiect ei gyfrannu i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, a gobeithio galla'i fod o help i'r tîm. Diolch!"



Ar ddydd Gwener 17 Tachwedd, aeth Jenny Needs a Steve Morris i Ganolfan Gymraeg Tŷ'r Gwrhyd ym Mhontardawe i gynnal unig ddigwyddiad Cymraeg rhaglen Gŵyl 'Being Human' eleni. Dyma unig ŵyl genedlaethol y dyniaethau yn y DU a'r unig hyb sydd gan yr ŵyl yng Nghymru yw Abertawe. Arweinir yr ŵyl gan Ysgol Astudiaethau Uwch Prifysgol Llundain mewn partneriaeth â'r Academi Brydeinig a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

Enw sesiwn Gymraeg CorCenCC oedd "Rho dy Gymraeg i ni!" ac roedd yn gyfle gwych i gasglu oriau o ddata llafar trwy arbrofi ar ddull y rhaglen deledu 'Gogglebox' a gofyn i gyfranwyr ymateb yn fyw i ffilmiau byr.



CorCenCC yn cynnal unig ddigwyddiad Cymraeg Gŵyl 'Being Human' 2017

17 - 25 Tachwedd 2017, Prifysgol Abertawe

Roedd hefyd yn gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghwm Tawe a dangos yr ap iddyn nhw (fel mae Jenny yn ei wneud yn y llun). Cafwyd ymateb da – a bywiog – gan y 'beirniaid sofffa' i'r ffilmiau byr ac yn sicr, mae'n ffordd o gasglu data llafar y byddwn yn edrych ar ei defnyddio eto yn y dyfodol.

Diwrnod i ffwrdd CorCenCC

6 Tachwedd 2017, Prifysgol Abertawe



"rhoddodd amser i'r tîm i gwrdd wyneb yn wyneb i bwysu a mesur y cynnydd a wnaed hyd yn hyn a myfyrio'n gadarnhaol arno"

Ar y 13eg o Dachwedd, daeth holl dîm WP1 (y Prif Ymchwilydd, Cydymchwilwyr a Chynorthwyr) ynghyd yn Abertawe am ddiwrnod i ffwrdd. Roedd y cyfarfod hwn yn amlswyddogaethol; rhoddodd amser i'r tîm gwrdd wyneb yn wyneb i bwysu a mesur y cynnydd a wnaed hyd yn hyn a myfyrio'n gadarnhaol arno, a blaenoriaethu a chynllunio misoedd nesaf y prosiect. Roedd y cyfarfod yn gynhyrchiol ac yn ffordd dda o gyflwyno aelodau newydd o'r tîm. I ddechrau, profwyd ein

sgiliau cyfathrebu trwy gwblhau tasgau cyfathrebu rhyngweithiol gan ddefnyddio delweddau. Ond canolbwynt y drafodaeth oedd ar sut i lilio'r broses o ymdrin â Data Mawr, a nodi heriau casglu data a ffyrdd o'u goresgyn. Yn gyffredinol, daethpwyd i gasgliadau cadarnhaol, ac rydym eisoes wedi dechrau gweithredu newidiadau i ddulliau casglu data, megis defnyddio sgrapiwr gwe i awtomeiddio echdynnu testunau e-iaith.

Lowri Williams, Prifysgol Caerdydd



+ Diweddariadau ar Becynnau Gwaith (WP2/5)


Mae'n gwaith ynghylch WP2 wedi mynd rhagddo'n dda dros y misoedd diwethaf hyn. Mae'r meddalwedd pwrpasol ar gyfer tagio rhannau ymadrodd, *CyTag*, ar waith bellach ac mae wrthi'n ennill ei blwyf. Ar ben hynny, rydyn ni wedi llwyddo i baratoi set werthuso safon aur - dros 600 o frawddegau lle mae rhannau ymadrodd wedi'u nodi i'n galluogi i gloriannu *CyTag* yn briodol. Rydyn ni'n fodlon iawn ar y canlyniadau, sy'n ardderchog ar gyfer y Gymraeg. Mae modd eu cymharu â'r math o gywirdeb a ddisgwylir trwy feddalwedd cyffelyb mewn ieithoedd eraill.

Un o'r pethau rydyn ni'n fwya'f balch ohono o ran *CyTag* yw y bydd yn manteisio ar ddeunyddiau o ffynonellau agored wrth bennu pa rannau ymadrodd sydd i'w hanodi. Yn bennaf, mae'n gweithio trwy ddefnyddio'r

wybodaeth sydd yng ngeiriadur Kevin Donnelly, *Eurfa* - yr un mwyaf sydd ar gael yn rhad ac am ddim - i baratoi rhestr o'r tagiau posibl i bob gair mewn testun Cymraeg. Ategir hynny trwy restrau penodol o enwau lleoedd, enwau cyntaf a chyfenwau o Wikipedia. Ar ôl paratoi rhestr o'r geiriau sy'n bosibl, gallwn ni ddefnyddio set o reolau pwrpasol i fireinio'r tagiau posibl i bob gair - yn ôl tagiau neu nodweddion y geiriau o'i gwmpas - nes dod o hyd i'r un cywir. Er enghraifft, yn y frawddeg 'mae Cymru yn wlad Geltaidd', gallwn ni dybio bod 'yn' yn elfen sy'n cysylltu 'Cymru' â 'wlad' am ein bod yn gwybod bod 'wlad' yn dreigladd meddal o 'gwlad' ac mae gyda ni reol i ddewis y tag ar gyfer 'yn' lle mae'r gair canlynol wedi treiglo'n feddal. Welwch chi pa mor bwysig yw

WP2:

Datblygu'r set tagiau/tagiwr rhannau ymadrodd (arweinydd: Dawn Knight)



trin a thrafod y treigladau'n gywir? Rydyn ni'n bwriadu adeiladu ar ein cynnydd dros y ddau fis nesaf trwy ychwanegu rhai nodweddion ac estyniadau at *CyTag*. Byddwn ni'n ystyried a all technegau dysgu trwy beiriant ein helpu i ddod o hyd i fonion geiriau Cymraeg nad ydyn nhw yng ngeiriadur *Eurfa*, a byddwn ni'n dechrau ystyried sut mae nodi ymadroddion aml eu geiriau yn hytrach na dim ond geiriau unigol. Bydd gwefan *CyTag* ar gael cyn bo hir hefyd, i roi rhagor o wybodaeth a dangos sut mae'r dull yn gweithio.

WP5:

Adeiladu seilwaith i gynnal CorCenCC a chreu'r corpws (arweinydd: Irena Spasić)



Mae WP5 yn ymwneud ag isadeiledd technegol y prosiect, yn bennaf. Rydyn ni wedi cyflawni tipyn mewn dwy agwedd bwysig arni, yn ddiweddar. Daeth y datblygiadau mwyaf diddorol wrth lunio dulliau ymholi am y corpws. Rydyn ni wedi bod yn defnyddio set fechan o ddata i ofalu y bydd modd trin a thrafod yr holl ymholiadau yr hofffen ni eu gosod ar ôl tagio popeth trwy feddalwedd *CyTag* a'n tagiwr semantig arfaethedig. Rydyn ni'n troi ein sylw at lunio'r

rhyngwyneb bellach, i ofalu y bydd yr olwg arno yn dderbyniol i'r rhai sy'n defnyddio CorCenCC. Rydyn ni'n gobeithio y bydd modd dangos y broses ar waith yn y flwyddyn newydd cyn ychwanegu data wrth i'r corpws dyfu.

Ar ben hynny, ynglŷn ag agweddau mwy ymarferol y prosiect, rydyn ni wedi bod yn symleiddio prosesau cofnodi a rheoli'r data sydd wedi'u casglu. Rydyn ni wedi rhoi



rhyngwynebau â'r we fel y gall ymchwilyr a thrawsgrifwyr symud ffeiliau sydd wedi'u cadw a'u rhoi ar gael i'w gilydd. Rydyn ni wrthi'n llunio rhyngwynebau ychwanegol fydd yn categoreiddio'r data hynny yn ôl fframwaith samplu'r prosiect. Rydyn ni wedi llunio cronfeydd data symlach sy'n cofnodi gwybodaeth am yr hyn sydd wedi'i gasglu hefyd, fel y gallwn ni gadw golwg ar y data sydd gyda ni hyd yma.

Mae proses llunio CorCenCC Crowdsourcing App yn rhan o orchwylion WP5, hefyd. Yn ddiweddar, rydyn ni wedi bod yn paratoi fersiwn Android fydd yn ategu'r un sydd ar gael eisoes ar ffurf iOS. At hynny, rydyn ni wrthi'n mireinio fersiwn arall o'r rhaglen honno ar gyfer y we fel y bydd modd i'r cyfranwyr gyflwyno data os nad yw'r rhaglenni pwrpasol ar gael iddyn nhw. Bydd newyddion am argaeledd pob fersiwn o'r rhaglen ar gael ddechrau'r flwyddyn newydd.

+ CorCenCC ar yr heol

Ar ddechrau'r mis, treuliais i wythnos 'yn y maes', yn cwrdd â siaradwyr Cymraeg a'u recordio nhw'n byw eu bywydau pob dydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Weithiau mae pobl yn meddwl bod CorCenCC yn chwilio am enghreifftiau penodol o Gymraeg, ac yn ein cyfeirio ni at siaradwyr 'gorau' y dafodiaith leol. Ond beth rydyn ni wir yn ceisio'i gael yw enghreifftiau o sut mae'r iaith yn cael ei defnyddio gan y cyhoedd – wrth siopa, wrth gymdeithasu, dros baned neu dros ginio. Gobeithio bydd y dyddiadur isod (diwrnod arbennig o brysur yn ystod fy wythnos i ffwrdd) yn dangos rhai o'r pethau rydyn ni'n ceisio'u casglu ar draws y wlad – ac efallai yn gwneud i chi feddwl pa enghreifftiau o Gymraeg y gallech chi eu cyfrannu eich hun!



07:30 – Dw i'n cyrraedd lleoliad recordio cyntaf y diwrnod – canolfan hamdden, lle bydda i'n casglu enghreifftiau o sgysiau rhwng staff a chwsmeriaid wrth y dderbynfa. Dw i yno yn gynnar iawn, ond mae llawer o'r cwsmeriaid wedi fy nghuro i! Fodd bynnag, mae llif digonol o gwsmeriaid yn mynd mewn a mas, a dw i'n ffodus taw ardal eitha Cymraeg yw hon, felly mae'r rhan fwyaf o'r sgysiau'n digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

09:00 – Amser brechwast! Dw i mewn pentre arall erbyn hyn ac yn dewis caffi lle mae'r staff yn siarad Cymraeg, gan obeithio byddan nhw'n fodlon i fi recordio sgysiau yn y caffi. Ond maen nhw'n brin o staff heddiw, felly does dim hyd yn oed cyfle i fi sôn am brosiect CorCenCC. Brechwast tawel i fi heddiw, 'te. Gwell lwc tro nesa!

10:00 – Dw i'n barod ar gyfer fy apwyntiad nesaf – mewn llyfrgell, y tro hwn. Mae fy wythnos yn gymysgedd o apwyntiadau wedi'u trefnu (gyda chwmnïau, sefydliadau, ac unigolion), a cheisio dal cyfleoedd sy'n codi rhwng apwyntiadau. Yn y llyfrgell, dw i'n recordio sgysiau rhwng staff a chwsmeriaid a rhwng aelodau staff wrth iddyn nhw ymgymryd â'u gwaith. Fel arfer, dw i'n osgoi bod yn y recordiadau fy hun – byddai cynnwys gormod o fy iaith fy hun yn y corpws yn sgiwio'r data, gan ein bod ni'n ceisio samplu digon o siaradwyr i adlewyrchu amrywioldeb Cymru. Ond dw i'n gwneud eithriad heddiw – mae cwpl o gwsmeriaid y llyfrgell yn ddiddorol iawn ac eisiau rhannu eu hanesion â fi, felly rhaid i fi fod yn y sgysiau! Dw i'n trio fy ngorau i gyfyngu fy ymatebion i “wê” ac “mhm”, yn lle sgiwio'r data gyda gormod o siarad!



11:30 – Dw i ‘ar yr heol’ eto, ar gyfer apwyntiad recordio yn y tre nesaf. Dw i’n bwriadu casglu enghreifftiau o iaith cleientiaid a staff, ond mae’r dderbynfa yn dawel iawn heddiw. Bydd rhaid i fi ddod nôl rywbryd pan fydd y lle’n fwy prysur. Ond recordiais i gwpl o sgysiau rhwng staff, felly dyna rywbeth!

13:30 – Dw i wedi gofyn am ganiatâd i recordio mewn caffi arall dros ginio. Dw i’n cyrraedd yn hwyr oherwydd i fi gwympo a throi fy mhigwrn! Dw i’n recordio pobl yn archebu bwyd wrth i fi gael paned cyflym, ond mae’n amser i fi symud ymlaen i’r apwyntiad nesa! Ond bydda i nôl yn y caffi eto yn y flwyddyn newydd i gael rhagor o ddata.

14:00 – Mae grŵp o bobl hŷn yr ardal hon yn cwrdd yn wythnosol i ddal lan dros baned. Y tro hwn, maen nhw wedi dod i’r ysgol leol, lle mae’r disgyblion yn darparu brechdanau, cacenni a te. Mae pawb yn mwynhau a dw i’n recordio darnau o’r sgysiau bywiog sy’n llifo fel y te! Achlysur hyfryd iawn i fod yn rhan ohono – diolch!

16:00 – Dw i’n mynd nôl i’r gwely a brechwast i drosglwyddo’r recordiadau i’r gliniadur ac i sortio gwaith papur, cyn cael swper a mynd mas eto i sesiwn recordio ola’r diwrnod.

19:30 – Ac nawr am rywbeth hollol wahanol! Heno dw i’n recordio darlith gyhoeddus – newid llwyr o’r iaith dw i wedi bod yn ei chasglu drwy’r dydd. Rydyn ni’n ceisio casglu tipyn o bopeth, felly dyma enghraifft o ddefnydd o Gymraeg sydd ychydig yn fwy ffurfiol. Mae’r siaradwr yn ddoniol ac yn ddiddorol iawn. Ond cofiwch – does dim rhaid i chi fod yn ddoniol NAC yn ddiddorol er mwyn rhoi eich Cymraeg i ni!! Bydd cyfraniadau o unrhyw fath – ffurfiol neu anffurfiol, difyr neu ddiflas – yn helpu creu pictiwr o beth yn union yw’r Gymraeg heddiw.

Jennifer Needs, Prifysgol Abertawe



“Mae pawb yn mwynhau a dw i’n recordio darnau o’r sgysiau bywiog sy’n llifo fel y te! Achlysur hyfryd iawn i fod yn rhan ohono – diolch!”

Jennifer Needs

+ Cwrdd â’r tîm: Dr Dawn Knight, Prif Ymchwilydd

Felly, pwy yw Dr Dawn Knight, Prif Ymchwilydd prosiect CorCenCC – yr un â’r gwallt lliw bylb golau a’r wên ddanheddog? Wel dyma gyfle i ddod i wybod mwy amdani yn rhifyn olaf ‘Cwrdd â’r Tîm’ yn 2017.

Mae’n debyg y dylwn i ddechrau trwy ateb cwestiwn (sy ddim mor) syml: o ble ydw i’n dod? Wel, roedd Dad yn y REME (*Royal Electrical and Mechanical Engineers*) pan

oeddwn i’n blentyn felly treuliais i’r rhan fwyaf o’r hamser (nes ‘mod i’n ll oed) yn byw ger barics y fyddin yn Paderborn, Yr Almaen. Felly yn ôl pob tebyg, rwy’n un o’r ‘Brit Brats’ gwreiddiol. Mae’r llun cyntaf yn crynhoi’r blynyddoedd cynnar yna’n eithaf da. Mae rhai’n dweud mod i heb newid ryw lawer ers hynny... Wedyn symudon ni dros y môr i



Bovey Tracey, Dyfnaint lle treuliais i fwy o’r blynyddoedd cynnar yn rhedeg trwy’r caeau ar fferm fy rhieni cu, yn dringo *tors* yn Dartmoor ac yn ‘dwgyd fale’.



Yn ystod y blynyddoedd hyn, ces i fy argyhoeddi y byddwn i'n gwneud rhywbeth gyda mathemateg pan fyddwn i'n 'hŷn' ond yn lle hynny, dechreuais i ddwlu ar Lenyddiaeth pan oeddwn i yn y Chweched a phenderfynais i ymrestru ar radd mewn Astudiaethau Saesneg ym Mhrifysgol Nottingham yn 2000. Fel y person cyntaf yn fy nheulu i fynd i'r Brifysgol, doedd dim syniad gen i beth i'w ddisgwyl – ac yn sicr, dim syniad na fyddwn i byth yn dianc rhag y tyrrau ifori yna byth eto.

Yn ystod y cyfnod ar y BĀ des i ar draws maes ieithyddiaeth gymhwysol am y tro cyntaf a ches i fy machu yn syth. Yn 2003, dewisais i barhau i astudio a

chwblhau MA cyn mynd ymlaen i'r PhD. Wedyn ces i swydd fel Cynorthwydd Ymchwil ar brosiectau mawr a ariannwyd gan yr ESRC (Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol) ar greu corpora amlfodd a heterogenaidd. Ces i'r fraint fawr o weithio'n agos gyda Svenja Adolphs a Ronald Carter yn ystod fy mlynyddoedd olaf yn Nottingham. Roedden nhw o gymorth mawr wrth i mi ddatblygu fy nealltwriaeth o werth a photensial defnyddio dulliau corpws i ateb ystod o gwestiynau 'byd-go-iawn' gwahanol am iaith fel mae'n cael ei defnyddio mewn cyd-destunau a diwylliannau gwahanol ac ar draws

amserau a moddau cyfathrebu gwahanol (gan gynnwys ystumiau ystumiau – canolbwyntiodd fy PhD ar sianelu nodiau pen tuag yn ôl, er enghraifft). Hefyd, roedden nhw o gymorth o ran datblygu fy sgiliau wrth gyflwyno a chyfleu syniadau'n effeithiol a oedd yr un mor werthfawr i mi. Credwch neu beidio, pan ddechreuais fy PhD roeddwn i'n unigolyn swil, ymbilgar oedd ond yn gweiddi ar gae pêl-droed ar brynhawn Sul wrth chwarae dros dîm Merched Nottingham Forest). Ar ôl ychydig o flynyddoedd o fagu a mentora gofalus, newidiais yn fuan yn academydd mwy abl (ac efallai wedi'i sefydliadu).



Mae ganddyn nhw lawer i ateb drosto, sbo! Hedfanais y nyth yn Nottingham i gymryd fy swydd gyntaf yn Newcastle fel darlithydd mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol yn 2011. Roedd hi'n oer ond yn ddigon dymunol i fyny yn y Gogledd. Yn y "Toon" y mae stori (fwy perthnasol, efallai) CorCenCC yn dechrau. Rwy'n siŵr fod nifer ohonoch chi wedi'i chlywed erbyn hyn. Rhag ofn nad ydych wedi'i chlywed, dyma hi: un espresso bach yn ormod mewn caffi yn y Toon + Tess Fitzpatrick + gêm Twister wallgof i ddysgu Cymraeg = y sylfeini ar gyfer creu corpws o Gymraeg cyfoes. Gyda Steve Morris yn ymuno mewn ail gyfarfod dros sawl disgled arall o goffi yng ngorsaf Temple Meads Bryste, lluniwyd anghenfil o gynllun ymchwil llawnach, mwy cyffrous. Doeddwn i ddim wedi cwrdd â Steve cyn y cyfarfod yna ond ar ôl yr ychydig oriau yna, roedd yn teimlo fel pe baen ni wedi nabod ein gilydd am byth. Cawson ni hwyl a hyd y dydd heddiw, mae dal partneriaeth wych, hynod gyda ni ynghyd â chyfeillgarwch mawr. Wedi 3 blynedd o gynllunio, drafftio ac ail-ddrafftio, cyflwynwyd y cynnig a symudais i'r de i Brifysgol Caerdydd. Roedd gyda ni deimlad da am y bid, ond dw i ddim yn credu yr anghofiwn ni byth y diwrnod pan roddwyd gwybod i ni ein bod wedi llwyddo – yn sydyn roedd popeth yn real.

Codwyd ein calonnau'n fawr gan y ffaith fod pob cyfrannwr, partner a rhanddeiliad posibl, yn ystod y camau cynllunio, wedi deall pwysigrwydd a photensial ein gweledigaeth gyda CorCenCC bron yn syth. Roedd fel pe bai traweffaith



cysylltiedig y gwaith wir wedi taro tant gyda phawb oedd yn cymryd rhan. Mewn gwirionedd, mae'n rhaid cyfaddef fy mod i'n teimlo mor lwcus i fod yn rhan o dîm CorCenCC: mae gyda ni bobl ysbrydoledig, ddeallus, ddiwyd â gweledigaeth yn rhan ohono. Roedd brwdfrydedd penderfynol unigolion yn destun calondid arbennig i ni o gofio faint o amser, egni a ffydd roedd Tess, Steve a finnau eisoes wedi'u buddsoddi yng nghynlluniau'r prosiect. Ffydd efallai yw'r rhan bwysicaf oll ac rwy'n teimlo ei bod yn rhywbeth sydd, hyd heddiw, yn gyrru'r tîm cyfan trwy'r ymchwil. Er ei fod yn waith caled iawn weithiau, fel mae prosiectau o'r raddfa a'r maint yma yn aml, y ffydd yma fydd yn sicrhau, gobeithio, fod CorCenCC yn llwyddo wrth iddo ddirwyn i ben yn 2019 ond yn bell i'r dyfodol hefyd.

Rydyn ni am i CorCenCC fod yn 'fwystfil' byw a bywiog ac er bod angen llawer o waith i sicrhau bod y bwystfil yn fyw o hyd, gwnawn ni ein gorau glas i sicrhau ein bod yn llwyddo. Bydd mis Ionawr yn nodi tair blynedd ers i mi ddod i Gaerdydd ac yn ystod fy amser yma, rwyf wedi dysgu llawer am y wlad, y diwylliant a'r iaith Gymraeg. Hyd yn hyn, mae wedi bod yn daith lawn hwyl, gyffrous, chwim ac ar brydiau, ddwys...hir oes i CorCenCC!

+ Cysylltu â ni

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r prosiect hefyd ar gael drwy Facebook:

www.facebook.com/CorCenCC/; Twitter <https://twitter.com/corcencc> (gallwch ein trydar @CorCenCC). Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy anfon neges i gyfeiriad ebost y prosiect: corcencc@caerdydd.ac.uk neu ewch i'n gwefan, sef:

www.corcencc.cymru



Arts & Humanities
Research Council

Mae CorCenCC yn brosiect ymchwil a ariennir gan ESRC/AHRC (Grant Rhif ES/M011348/1). Mae tîm CorCenCC yn cynnwys y Prif Ymchwilydd - Dawn Knight; y Cyd-Ymchwilwyr - Tess Fitzpatrick, Steve Morris, Irena Spasić, Paul Rayson, Enlli Thomas, Mark Stonelake a Jeremy Evas; y Cynorthwywyr Ymchwil - Steven Neale, Jennifer Needs, Mair Rees, Scott Piao a Lowri Williams; y myfyriwr PhD - Vigneshwaran Muralidaran; Ymgynghorwyr - Kevin Donnelly, Kevin Scannell, Laurence Anthony, Tom Cobb, Michael McCarthy a Margaret Deuchar; Grŵp Ymgynghorol y Prosiect - Colin Williams, Karen Corrigan, Llion Jones, Maggie Tallerman, Mair Parry-Jones, Gwen Awbery, Emyr Davies (CBAC-WJEC), Gareth Morlais (Llywodraeth Cymru), Owain Roberts (Llyfrgell Genedlaethol Cymru), Aran Jones (Saysomethingin.com) ac Andrew Hawke (Geiriadur Prifysgol Cymru). Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am gynnwys y cylchlythyr hwn, cysylltwch â Dr Dawn Knight: KnightD5@caerdydd.ac.uk